Cyngor Gofal Cymru
Care Council for Wales

*Hyder mewn Gofal - Confidence in Care*

# SGILIAU IAITH GYMRAEG EICH GWEITHLU

## CANLLAW CYFLYM

Mae ***Mwy na Geiriau***, Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Iaith Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ei wneud yn ofynnol bod darparwyr gofal yn cynnig gwasanaethau iaith Gymraeg yn ragweithiol ac i'r un safon a'r gwasanaeth iaith Saesneg.

- Mae'r gallu i wneud hyn yn dibynnu'n gyfan gwbl ar eich staff. Mae'r iaith Gymraeg yn sgil broffesiynol, fel unrhyw sgil arall.
- Bydd **Sgiliau Iaith Gymraeg eich Gweithlu, eu defnyddio yn effeithiol**, yn eich helpu i wneud hyn drwy ddilyn canllawiau syml.
- Mae deddfwriaeth cyfredol yn dweud bod rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau bod ganddynt drefniadau staffio priodol a digonol mewn lle i ddarparu gwasanaethau gofal o'r un safon yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Cyhoeddir deddfwiaeth yn y dyfodol agos a fydd yn sefydlu Safonau Iaith newydd, bydd yr un mor berthnasol i gyrff trydydd parti, asiantaethau, cwmnïau a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau gofal ar ran cyrff cyhoeddus.
- Egwyddor **Mwy na Geiriau** yw'r Cynnig Rhagweithiol. Mae hyn yn golygu na ddylech aros i unigolyn ofyn am ddarpariaeth iaith Gymraeg; yn hytrach dylech fynd ati'n weithredol i nodi anghenion iaith yr unigolyn. Os Cymraeg yw'r iaith yna dylech gynnig eich gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg mewn ffordd sydd yr un mor hawdd a phrydlon a'r gwasanaeth iaith Saesneg.

## Beth rydych angen ei wneud i sicrhau eich bod yn bodloni gofynion **Mwy na Geiriau**:

Creu **Cynllun Sgiliau Iaith Cymraeg** i'ch gweithlu drwy ddilyn y camau hyn:

1. Defnyddiwch y Siartiau Llif Sgiliau Iaith **'Sgiliau Cymraeg Llafar'** (tudalen 11) a **'Sgiliau Ysgrifennu Cymraeg'** (tudalen 12) i benderfynu pa sgiliau iaith sydd eu hangen ar eich gweithlu, i dimau penodol ac i unigolion.
2. Defnyddiwch y **'Fframwaith Lefel Sgiliau Iaith'** (tudalen 13) i asesu a recordio sgiliau iaith eich staff cyfredol, ac i asesu beth yw'r anghenion i staff yn y dyfodol. Gofynnwch i'ch gweithlu cyfredol i ddefnyddio'r Fframwaith i asesu lefel sgiliau iaith Cymraeg eu hunain, yn aml mae staff yn gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg yn llawer gwell nag y maent yn hyderus o rannu gyda cyflogwr. Mae'r Fframwaith wedi ei ddylunio i ddarganfod y sgiliau iaith Cymraeg sydd eisoes yn bodoli o fewn y gweithlu, ond sydd heb eu darganfod hyd yn hyn.
3. Datblygu cynlluniau hyfforddiant iaith Gymraeth i'ch staff lle bo angen.
4. Recriwtio staff gyda sgiliau iaith Cymraeg lle bo angen, gan drafod gyda'ch Rheolwr Adnoddau Dynol, Rheolwr Gwasanaethau neu unrhyw gyd-weithiwr priodol.

Mwy na geiriau

### Manylion cyswllt:


Cyngor Gofal Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Facs: 029 2038 4764
Minicom: 029 2078 0680
gwybodaeth@cgcymru.org.uk
www.ccwales.org.uk



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government